

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad beirniadol a arsylwyd.

1. Cyflwyniad

Digwyddwyd digwyddiad beirniadol pob ddiwrnod yn ysgolion ac felly nod yr adroddiad yma oedd arsylwi er mwyn weld digwyddiad beirniadol o fewn ysgol gynradd lle lleolwyd ar gyfer profiadau dysgu. Mae'r adroddiad yma yn ffocysu ar un plentyn yn benodol a'i ymateb; ond, gwelwyd y digwyddiad beirniadol yn cymryd lle o fewn trafodaeth grŵp yn ystod amser cylch.

Archwiliwyd i'r modd a ymdriniwyd â'r digwyddiad critigol a pa fath o ffactorau sy'n effeithio ar yr achos critigol; megis, pwysigrwydd o berthnasoedd athrawon â phlant, pwysigrwydd llythrennedd emosiynol ac asesu ffurfiannol. Bu hefyd ystyriaeth o fframwaith Donaldson sef "Dyfodol Llwyddiannus" trwy gydol yr adroddiad.

Defnyddiwyd arsylwi strwythuredig fel dull er mwyn casglu data yn nhablau arsylwadau (gwelir yn atodiadau) wedi ysgrifennu wrth law yn ystod yr arsylwi ac yna wedi teipio. Yn ystod yr arsylwi, oherwydd bu'r plant yn ofyn cwestiynau a gofyn am gymorth, mi oeddwn yn arsylwyr cyfrannol.

Disgwylir gweld a dysgu am y technegau gwahanol o ymdopi gydag amrywiaeth o ddigwyddiadau gwahanol. Yn ystod y ddau ddiwrnod a arsylwyd, bu pedwar digwyddiad beirniadol wedi denu sylw (gwelir atodiadau er mwyn ddarllen mwy). Disgwylir hefyd gweld sut bu'r pedwar diben (Donaldson, 2015) yn gallu cyfrannu i bob math o ddigwyddiad, bu'n feirniadol ai peidio.

2. Arsylwi

Yn ôl Estyn, ym mis Tachwedd 2018, roedd gan yr ysgol 425 o ddisgyblion, a bu 11% ohonynt ar brydau ysgol am ddim, sydd yn llai na'r canran cyfartalog cenedlaethol o 18% (Estyn, 2018). Mae'r gymhareb disgybl i athrawon yn 23.7 yn 2018 a dderbyniwyd cyllideb o £3192 fesul disgybl (Llywodraeth Cymru, 2018)). Mae'r ysgol yng nghategori cefnogaeth wyrdd o gefnogaeth (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae ystadegau hefyd yn dangos ardaloedd

difreintiedig i amgylchynu'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r ysgol yn ysgol Gymraeg ond, yn ôl Estyn, mae chwarter o blant yn dod o gartrefi Cymraeg (Estyn, 2018). Ond, yn ôl pennaeth yr ysgol, dydy hyn ddim yn fanwl gywir. Dywed bod llawer llai o blant yn dod o gartrefi Cymraeg na ddangosir yr ystadegau yma.

Arsylwais ar ddosbarth blwyddyn un, sef plant pump a chwe blwydd oed, ar draws dau ddiwrnod. Does dim anghenion dysgu ychwanegol gan unrhyw blant yn y dosbarth. Does dim cynorthwyydd wedi darparu i'r dosbarth, ond, mae un cynorthwyydd yn y flwyddyn (ail ddosbarth blwyddyn un). Mae'r dosbarth wedi grwpio yn ôl gallu, ond, daeth y grwpiau i fyny o'r derbyn. Dywed yr athrawes bod angen diweddarau'r grwpiau ond nad oedd yn bosib gwneud hyn eto oherwydd eu bu dal yn dod i adnabod y plant. Pob ddiwrnod mae'r cynorthwyydd yn cymryd grwpiau allan o'r dosbarth er mwyn gwneud tasgau bach a lleihau'r nifer o blant yn y dosbarth.

3. Methodoleg

3.1 Dull Damcaniaethol a Data

Defnyddiwyd arsylwi strwythuredig fel y dull damcaniaethol ar gyfer casglu data. Cafwyd y dull eu dewis gan y brifysgol ar gyfer y papur yma. Cafwyd arsylwi strwythuredig eu defnyddio gan ei fod yn caniatáu i ymchwilydd gadw ffocws agos ar fanylion sy'n bwysig i'r cwestiwn ymchwil. Dywed bod arsylwi yn gallu bod yn ddefnyddiol oherwydd mae'n gallu darganfod os yw pobl yn gwneud beth maent yn ddweud eu bod yn wneud ai beidio (Bell & Waters, 2014). Fel nodwyd Bell a Waters (2014), mae arsylwi yn galluogi persbectif gwell mewn i rai sefyllfaoedd ac felly yn ddull defnyddiol iawn. Cyn mynd i arsylwi, darllenwyd Fletcher-Wood (2016): *"Ticked Off"* ac adroddiad *Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd* Estyn er mwyn sicrhau arsylwi effeithiol a manwl.

Ond, mae'r dechneg yn wynebu beirniadaeth gan eu bod yn gallu cael eu hystyried i fod yn oddrychol a tueddol. (Bell & Waters, 2014). Nodwyd Didau:

"We bring our cognitive biases to bear on the lessons we observe"
(Didau, et al., 2016).

Wrth i ni ddod a thuedd emosiynol a gwybyddol mewn i'r dosbarth, hyd yn oed pan na fyddwn yn ceisio, gall fod yn ddall i ddehongliadau arall (Didau, et al., 2016). Mae rhaid hefyd nodi doedd dim siawns o redeg peilot er mwyn arbrofi gyda'r dull arsylwi strwythuredig. Os cynhaliwyd peilot, byddai wedi bod yn bosib mireinio'r dechneg o arsylwi ac ymarfer dulliau o gasglu data yn ffyrdd gwahanol (llenwi tablau yn y dosbarth; creu taflenni nodiadau wedyn llenwi; teipio nodiadau yn y dosbarth).

Cafwyd y data eu casglu o fewn tabl a roddwyd gan y brifysgol. Defnyddiwyd y tablau yma er mwyn sicrhau casgliad o ddata perthnasol i'r astudiaeth. Ond, gan ddefnyddio'r tablau, gall tuedd wedi codi gan ein bod yn edrych am enghreifftiau penodol o achosion critigol.

3.2 Cyfranogwyr

Mae materion moesegol ac anhysbysrwydd cyfranogwyr yn bennaf yn yr astudiaeth yma. Nodwyd tri mater pwysig o fewn hyn:

Yn gyntaf, mae rhaid cydnabod y ffaith bod plant yn cael eu harsylwi. Dydy plant ddim yn gallu rhoi caniatâd ac felly mae hyn yn fater moesegol cymhleth. Cafwyd caniatâd eu rhoi o bennaeth yr ysgol ac felly dechreuodd yr arsylwi.

Ail, mae rhaid cadw anhysbysrwydd llwyr trwy gydol y papur. Wrth gyfeirio at yr ysgol lle digwyddodd yr arsylwi ni fydd enw'r ysgol yn cael eu rhannu. Ni fydd enw'r athro/awes, cynorthwydd dosbarth nag enwau'r plant yn cael eu rhannu trwy gydol y papur. Gan ystyried papur Crow a Wiles, ni fydd lluniau yn cael eu defnyddio oherwydd gall yr ysgol cael eu hadnabod.

Yn drydydd, nad oedd gofynion yr aseiniad wedi amlinellu'r angen ar gyfer ffurflenni caniatâd, felly ni chafodd un eu defnyddio. Ni chafodd y gwall yn y farn hon eu sylweddoli nes ar ôl gorffennwyd yr arsylwi. Yn y dyfodol, bydd ffurflenni caniatâd wedi eu cynllunio ac wedi llofnodi gan bennaeth yr ysgol ac unrhyw athrawon a chafwyd eu harsylwi ar gyfer y papur hwn.

3.3 Diffiniadau:

3.3.1 Deallusrwydd emosiynol a llythrennedd emosiynol:

Dadlau Christine Bruce (2010) bod elfen reddfodl i emosiwn a gellir datblygu a'i fireinio trwy feithrin yn ofalus. Addysgir a ddatblygir sgiliau pellach mewn i beth gellir galw'n "Llythrennedd Emosiynol" yn ôl Bruce (2010). Dadlau Bruce hefyd fod "Deallusrwydd Emosiynol" yn awgrymu nad yw hi'n gallu cael eu haddysgu neu "meithrin". Daeth y diffiniad yma i le o waith Gardner yn 1983 (Bruce, 2010). Mae'r papur wedi heneiddio ond, mae gwaith Gardner dal i gael ei ddefnyddio helaeth. Mae'r defnyddioldeb heb heneiddio ac felly defnyddiwyd y diffiniad hwn yn ystod yr astudiaeth.

3.3.2 Achos Critigol:

I sicrhau diffiniad clir o beth yw achos critigol, astudiwyd llyfr Tripp:

"The vast majority of critical incidents ...are mostly straightforward accounts of very commonplace events... which are critical in the rather different sense that they are indicative of underlying trends, motives and structures" (Tripp, 2006).

Dyma felly y diffiniad a ddefnyddir er mwyn sicrhau tegwch a cydraddoldeb lle soniwyd am achosion critigol.

4. Adolygiad Llenyddiaeth:

4.1 Perthnasoedd athrawon â phlant:

Gan ystyried perthnasoedd rhwng plant ysgol ac athrawon, mae'n bosib dweud eu bod yn angenrheidiol i ystyried y perthnasoedd o fewn cyd-destun seicolegol. Dyna beth wnaeth Rucinski, Brown and Downer yn 2018 yn eu hastudiaeth *"Perthnasoedd athrawon-plant, hinsawdd yr ystafell ddosbarth, a datblygiad cymdeithasol-emosiynol ac academaidd plant"*. Defnyddiwyd 526 o blant ysgol o flynyddoedd tri i bump yn America, sef blynyddoedd tair i chwech yn y DU (Deyrnas Unedig). Cafodd y plant eu haddysgu gan 35 o athrawon ac ystyriwyd nhw yn yr astudiaeth yma hefyd. Cyn sôn am yr astudiaeth, mae rhaid cydnabod y ffaith cafodd eu gwneud yn America. Canolbwyntiwyd ar yr effeithiau ar blant ysgol yn ysgolion elfennol ("elementary"). Felly, mae rhaid ystyried y gwahaniaeth yn addysgeg a pholisïau ysgol/ardal/wladwriaeth/gwlad rhwng y DU a'r UDA (Unol Daleithiau America). Edrychodd yr astudiaeth yma ar sut oedd cefnogaeth emosiynol ar lefel unigol ac ar lefel ystafell ddosbarth y plant yn effeithio datblygiad cymdeithasol-emosiynol ac academaidd dros un flwyddyn. Astudiwyd iselder, pryder, ymddygiad ymosodol, presenoldeb, a sgoriau profion mathemateg a darllen y plant. Canfu'r yr astudiaeth yma:

"...the apparent inability of classroom emotional climate to compensate for poor teacher-child relationships indicates that teachers' expressions of warmth and sensitivity toward the class in general may not be sufficient..." (Rucinsky, et al., 2018).

Atgyfnerthwyd y ddadl yma gan nodi dylai ysgolion hyfforddi a rhoi cymorth i athrawon yn sbesiffig yn ymwneud gyda chyfathrebiad o serch a chefnogaeth i blant. Dylai pob disgybl hefyd fod yn hollol ymwybodol fod eu hathrawon yn gofalu amdanynt, maent yn hoffi nhw, ac maent ar gael i'r plant fel ffynhonnell ddibynadwy o gefnogaeth yn y dosbarth (Rucinsky, et al., 2018). Dangoswyd felly, y pwysigrwydd o berthnasoedd positif a cynnes rhwng athrawon a phlant dosbarth.

Ond, dim damcaniaeth modern yw hyn. Dangosodd Vygotsky y pwysigrwydd o hyn yn 1978. Atgyfnerthwyd hyn gan Ahner, et al, yn 2013:

"Vygotsky (1978) clearly located the motivation of a child's activity within his or her relation to a significant adult rather than within the activity itself".

Tynnodd Ahner et al (2013) sylw i waith Birch a Ladd yn eu herthygl. Dangosodd Birch a Ladd bod perthnasoedd da rhwng plant ac athrawon yn cysylltu i agweddau dysgu well a mwy o hunan gyfeiriad (Birch & Ladd, 1998). Nodir oedran y testun yma, erbyn nawr mae mwy o ymchwil wedi eu gwneud i'r maes. Ond, gan eu bod yn cael eu cyfeirnod yn yr

erthygl yma, bydd dadl gadarn ynglŷn â defnyddio'r ymchwil hon. Atgyfnerthodd yr ymchwil y pwysigrwydd o berthnasoedd da rhwng athrawon a phlant gan dynnu ar nifer o ymchwilwyr nodedig gan gynnwys Goswami, Piaget a Siegler. Trwy ddefnyddio gwaith Goswami, Piaget a Siegler, daeth Ahner et al i'r casgliad efallai os oedd yr athrawon yn agos ac yn ymatebol i'r plant, byddent yn deall sut i gefnogi cymwyseddau gwybyddol sylfaenol y plant (Birch & Ladd, 1998).

4.2 Llythrennedd emosiynol

Gan fod y digwyddiad beirniadol wedi digwydd o fewn "amser cylch" felly, cafodd ymchwil eu gwneud i bwysigrwydd amser cylch a'r cysylltiad i lythrennedd emosiynol. Yn bennod naw o'r llyfr "Promoting Emotional Education" (2009), pwysleisiodd Mosely'r pwysigrwydd o ddatblygu dull cyfannol o addysgu yn lle canolbwyntio yn unig ar ochr academiaidd. Dwedodd:

"Circle time is a child-friendly approach to encouraging the practice of socio-emotional skills in an inclusive, caring and Democratic climate".
(Mosely, et al., 2009)

Nodwyd y pwysigrwydd o gael amser cylch pob wythnos gan ei fod yn cael canlyniadau cadarnhaol gan fwyafrif o blant (Mosely, et al., 2009). Dangoswyd nifer o adroddiadau cadarnhaol gan y plant, gan gynnwys eu bod yn mwynhau'r sesiynau, mae'n helpu gyda chyfathrebu, canolbwyntio, gwrando ar eraill, gweithio fel tîm, gwneud ffrindiau newydd, yn hyrwyddo hunanhyder, ymdeimlad o berthyn a dod i adnabod ein gilydd (Mosely, et al., 2009). Mae hefyd yn effeithiol wrth hwyluso "mynegiant teimladau" ac "yn annog ymddygiad da, yn ymddygiad caredig a chymwynasgar" (Mosely, et al., 2009). Mae rhaid nodi'r dyddiad cyhoeddi gan gafodd eu cyhoeddi 10 blwyddyn yn ôl. Ymchwiliodd Mosely o fewn y DU ac felly mae'r papur yn ddefnyddiol iawn i'r astudiaeth yma gan fod nifer fawr o astudiaethau wedi gwneud tramor. Ond, nodir Mosely nad yw ei ymchwil yn ddigon "cadarn" ar gyfer archwiliad ystadegol (Mosely, et al., 2009). Serch hynny, adroddodd Mosely ganlyniadau da yn yr ysgolion lle cynhaliwyd yr ymchwil (Mosely, et al., 2009).

Mae gwaith Bruce yn "Emotional Literacy in the Early Years" (2010) yn awgrymu gellid ystyried bod cyflawni llythrennedd emosiynol yn gontinwrm (Bruce, 2010). Hynny yw, yn gyntaf mae rhaid dysgu i adnabod emosiynau sylfaenol trwy fynegiadau wynebol ac iaith y corff, ac wedyn datblygu dealltwriaeth o beth mae hynny'n golygu cyn mae un yn gallu trin a mynegi emosiynau yn briodol (Bruce, 2010). Pwysleisiodd Bruce y pwysigrwydd o gymryd y gwaith llythrennedd emosiynol yn drawsgwricwlaidd, fel y pwysleisiodd gan Donaldson hefyd yn Nyfodol Llwyddiannus. Ond, nad yw'r astudiaeth heb broblemau. Canfu'r Awdurdodau Addysg Leol Lloegr (ELEA) "welliannau amlwg mewn ymddygiad, dysgu, hyder, cydlyniant

cymdeithasol a chyflawniad academiaidd". Ond, nad oedd ffordd o brofi'r cysylltiad rhwng y gwelliannau a dysgu llythrennedd emosiynol (Bruce, 2010). Disgrifiodd Yr Awdurdodau Addysg Leol Lloegr eu gwaith fel "embryonig" gyda chanlyniadau yn tueddu i fod yn "argraffiadol" (Bruce, 2010). Mae Bruce hefyd yn cydnabod nad oedd pob un plentyn wedi gwella. Nodwyd ei bod yn amhosibl ymdrin â phob problem gymdeithasol yn y sesiynau. Fel Awdurdodau Addysg Leol Lloegr, nad oedd gan Bruce unrhyw dystiolaeth bendant i gysylltu'r gwelliannau i'r sesiynau llythrennedd emosiynol (Bruce, 2010).

4.3 Asesu Ffurfiannol:

Yn eu pamffled "Inside the Black Box" (1998), mae Black a Wiliam yn trafod Asesu Ffurfiannol: "Roedd meintiau effaith nodweddiadol yr arbrofion asesu ffurfiannol rhwng 0.4 a 0.7. Mae'r meintiau effaith hyn yn fwy na'r mwyafrif o'r rhai a geir ar gyfer ymyriadau addysgol" (Black & Wiliam, 1998). Gwelon fod maint yr effaith yn fawr iawn ar y plant wrth ddefnyddio asesu ffurfiannol. Dangoswyd felly, y gallai gael effaith gadarnhaol ar blant yn y dosbarth. Er bod y papur penodol hwn yn dod o'r UDA, astudiodd yr awduron lawer o bapurau eraill a chanfod canlyniadau tebyg wrth amrywio oedran y plant (o bum mlwydd oed i israddedigion) a hefyd ystod o wledydd (Black & Wiliam, 1998). Tynnir sylw i'r casgliad a gall asesu ffurfiannol helpu cyflawnwyr isel mwy nag unrhyw un arall (Black & Wiliam, 1998). Gall hyn lleihau'r ystod o gyflawniad wrth godi cyflawniad yn gyffredinol (Black & Wiliam, 1998).

Yn gwrthwynebu hyn, mae Didau yn nodi does dim ffordd ystyrlon o asesu beth sydd wedi cael eu dysgu o fewn y wers lle maent yn dysgu (Didau, et al., 2016). Nodwyd hefyd: "You cannot see learning; You can only see performance." (Didau, et al., 2016). Mae rhaid hefyd ystyried y tebygolrwydd sydd gan blant i gopïo atebion ei gilydd ac felly, ni fydd yr athrawon/cynorthwydd yn gallu gweld os yw'r plant yn dysgu ai beidio, gallant nhw weld eu "perfformiad" yn unig. Gwelon enghraifft o atebion yn cael eu copïo yn ystod y gweithgaredd. Digwyddodd hyn yn unig le bod ymateb wedi eu rhoi gan y cynorthwydd dosbarth i un plentyn. Os defnyddiwyd yr atebion yma fel darn o asesu ffurfiannol ni fydd yr atebion a rhoddwyd yn effeithiol. Dywed Didau: "... We can infer what might have been learnt, but such instances are highly problematic... (1) performance in the classroom is extremely dependent on the cues and stimuli provided by the teacher..." (Didau, et al., 2016). Ond, yn eu beirniadaeth o Didau, ysgrifennodd Wiliam fod angen arsylwi dros gyfnod oherwydd bod dysgu yn cymryd lle dros gyfnod hir. Parhaodd Wiliam wrth ddweud os doedd staff ddim yn asesu dros gyfnod, ni fydd ffordd o allu gweld dystiolaeth o ddysgu ac os yw angen addasu, bydd hi'n rhy hwyr (Didau, et al., 2016).

Mae cwestiynu fel rhan o asesu ffurfiannol yn hynod o bwysig ac felly ystyriwyd pamffled Harrison a Howard (2009) sef “Inside the Primary Black Box”. Dywed bod cwestiynau gydag ystod o rolau i chwarae yn yr ystafell dosbarth a bu cwestiynau sy’n hybu trafodaeth a chydweithredu yn sicrhau bod cyfleoedd ffurfiannol yn y dosbarth wedi magsimeiddio (Harrison & Howard, 2009). Tynnwyd sylw hefyd i’r gwahanol fathau o gwestiynau, sef cwestiynau “tew” a “tenau”; hynny yw, cwestiynau sydd angen mwy na pum gair i’w ateb (“tew”) a chwestiynau oedd angen llai na pum gair i ateb (“tenau”) (Harrison & Howard, 2009).

5. Achos beirniadol a’r pedwar diben:

5.1 Yr achos beirniadol:

Ces i gyfle i ymweld â’r gweithgaredd gyda’r grŵp olaf i fynd allan i ymweld gyda’r cynorthwydd. Gwelais enghraifft o Asesu Ffurfiannol. Gofynnodd y cynorthwydd sut oedd pawb yn teimlo ar yr adeg cyn i’r gweithgaredd dechrau, trwy drafod emosiynau ei gilydd, bu’r cynorthwydd yn gallu asesu ffurfiannol i weld eu dealltwriaeth. Dangoswyd y cynorthwydd darluniau o olygfeydd gwahanol; gan gynnwys: darlun bachgen gydag wyneb trist ar ôl i ferch wedi cymryd ei farcut; darlun o fabi yn crio wrth eistedd ar bwys bwrdd, a darlun o ferch hapus gydag anrhegion. Ceisiodd y cynorthwydd cael y plant i ddeall beth oedd y bobl yn teimlo a pham oeddynt yn teimlo fel hynny. Trafodwyd hefyd sut i helpu’r bobl yn y darluniau teimlo’n well a beth allent wneud i helpu.

Dehonglodd bachgen un darlun yn wahanol i bawb arall. Lle bod y plant arall yn gweld sioc a chyffro yn y darlun (bachgen gydag wyneb wedi cyffroi gyda nifer o anrhegion o’i gwmpas), gwelodd y bachgen yma ofn? Gweithiodd y cynorthwydd gyda’r bachgen o fewn y grŵp i ofyn nifer o gwestiynau, er enghraifft: “Beth sydd o gwmpas y bachgen? Pa ddiwrnod bydd hi? Sut fyddwch chi’n teimlo?”. Gan ofyn y cwestiynau, dealodd y bachgen yn weddol sydyn pa emosiwn dangoswyd yn y darlun.

Ar ddiwedd y gweithgaredd, gofynnodd y cynorthwydd un waith eto i’r plant trafod sut oeddynt yn teimlo ac felly gorffennodd y gweithgaredd gydag asesiad ffurfiannol.

5.2 Y pedwar diben a’r achos beirniadol:

Gwelwyd y pwysigrwydd o bob un o’r pedwar diben ac felly cysylltwyd i dri o’r pedwar diben gan ffocysu ar ddinasyddion egwyddorol ac unigolion iach a hyderus:

5.2.1 Dysgwyr uchelgeisiol:

Ceisiodd y plant yn galed er mwyn plesio’r cynorthwydd a chwblhau’r dasg i safonau uchel. Gan ofyn cwestiynau i’r plant, sicrhodd y cynorthwydd digon o gyfle iddi asesu ffurfiannol ac felly gwella dealltwriaeth eu hun a’r plant. Cysylltwyd hyn yn ôl i Harrison a Howard (2009). Gallent weld fod yr athrawes wedi gofyn nifer o gwestiynau tew a tenau i hybu

trafodaeth o fewn y grŵp (Harrison & Howard, 2009) ac mi oedd y dechneg yn effeithiol tu hwnt. Ond, gan ofyn nifer o gwestiynau, gallent hefyd cysylltu yn ôl i Ahner et al, Vygotsky a Didau. Soniwyd i gyd am gymhelliant plant a'r effaith o'r athrawes (cynorthwydd yn yr achos yma) (Didau, et al., 2016) (Ahner, et al., 2013) a'r eisiau i blesio hi.

5.2.2 Dinasyddion egwyddorol ac unigolion iach a hyderus:

Gan gynnal y gweithgaredd yn ystod amser cylch, mae'n hybu sgiliau cymdeithasol-emosiynol yn ddull cynwysedig a gofalgarg (Mosely, et al., 2009). Dangoswyd hyn bod y dull o drafod wedi cael eu dewis yn bwrpasol er mwyn gwneud y plant i deimlo'n gyfforddus yn rhannu. Gan ddenu sylw yn ôl i Mosely et al (2009) un waith eto, dangoswyd hefyd pa mor effeithiol yw amser cylch er mwyn hwyluso mynegiant emosiynol (Mosely, et al., 2009). Trwy gymryd rhan yn y gweithgaredd yma, y gobaith yw, nid yn unig bu'r plant yn deall emosiynau eu hun yn well ond byddent yn deall pam fod eraill gydag emosiynau ac yn teimlo fel maent hefyd. Felly, cysylltwyd yn ôl i waith Bruce (2010) gan eu bod yn dangos bu'r plant nawr yn ceisio deall mynegiadau wynebol ac iaith y corff er mwyn iddynt barhau i ddysgu mynegiant emosiynol (Bruce, 2010). Mae hefyd rhaid deall emosiynau eu hun er mwyn dysgu am iechyd meddwl eu hun. Gan ddysgu am emosiynau ac iechyd meddwl, mae siawns mwy o hunanreolaeth, sef un o'r egwyddorion cynnydd y fframwaith newydd (Llywodraeth Cymru, 2019). Dysgon hefyd sut i fod yn fwy cyfrifol yn gymdeithasol gan eu bod yn dysgu/rhannu syniadau o sut gallent helpu'r bobl pan fo nhw'n teimlo'n ffordd drist, er enghraifft (Llywodraeth Cymru, 2019).

6. Adfyfrio a chamau nesaf

Yn unrhyw adroddiad, mae'n bwysig cydnabod bod gwastad ardaloedd i wella:

Ynglŷn â'r digwyddiad beirniadol a'r proses o arsylwi byddaf yn ymddwyn fel arsylwyr anghyfrannol. O fewn yr holl broses o arsylwi, mi oedd yn galed i beidio ymyrryd oherwydd bod y plant yn ofyn cwestiynau ac yn gofyn am gymorth oherwydd bod yr athrawes yn brysor gyda gweithgareddau arall. Yn y dyfodol bydd sgwrsio gyda'r athrawes dosbarth a'r cynorthwydd yn ddefnyddiol i weld beth fydd well ganddyn nhw; i fi beidio ymyrryd o gwbl neu gynnig cymorth lle bod y plant eu hangen. Ond, dylai hyn wedi cael eu hystyried a dylai'r fethodoleg a'r adolygiad llenyddiaeth arddangos hyn ac felly, mae'n adran sylweddol i wella yn y dyfodol.

Yn y dyfodol, bydd mwy o ymchwil i arsylwi yn cael eu gwneud cyn cymryd rhan yn yr arsylwi. Darllenwyd Bell a Waters cyn arsylwi ond, bydd hefyd modd ddarllen am dechnegau gwahanol o arsylwi megis "pedwar lens Brookfield" a'r ardaloedd cadarnhaol a negyddol o hynny fel gwnaeth Ndebele yn 2014. Gall modelau Borton neu Rolfe hefyd wedi cael eu

hystyried os oedd mwy o gyn darllen wedi cymryd lle (Australian Collaborative Education Network and Authors, 2012). Ond, mae rhaid hefyd nodi os oedd cyfleoedd i redeg peilot wedi cael eu cynnig, bydd y problemau yma wedi ei nodi cyn cymryd rhan yn yr arsylwi terfynol.

Bydd y cyfle i weld mwy nag un grŵp yn cymryd rhan yn y gweithgaredd wedi bod yn fuddiol oherwydd bydd yna gyfleoedd i weld os oedd gwahaniaethu yn cael eu defnyddio a sut bu'r sgwrs yn wahanol os oedd gwahaniaethu. Gall hyn hefyd wedi effeithio ar destunau'r adolygiad llenyddiaeth.

Bydd cadw gliniadur yn agos drwy gydol yr arsylwi yn gallu bod yn fuddiol iawn. Mae creu nodiadau yn gyflymach ar liniadur ac felly bydd nodi cwestiynau a ofynnodd y cynorthwydd i'r grŵp yn fwy defnyddiol yn ymarferol.

Bydd gofyn cwestiynau ar ôl y wers wedi bod o gymorth ar gyfer y papur hwn. Gall cwestiynau ynglŷn ag os yw'r gweithgaredd yn cysylltu i'r fframwaith newydd yn uniongyrchol neu os gwnaethant y gweithgaredd am resymau arall. Gall hyn hefyd wedi effeithio ar yr adolygiad llenyddiaeth gan fod barnau personol a thuedd yn gallu effeithio ar bersbectif yr ysgrifenydd fel dywed Didau.

Bydd holi cwestiynau ynglŷn â'r amledd o'r gwersi/gweithgareddau emosiynol hefyd wedi bod yn ddefnyddiol gan fod y fframwaith newydd yn ffocysu ar gael continwmm o ddysgu ar gyfer plant. Gan ddilyn hyn, os oedd y gweithgaredd yn rhan o gontinwmm o wersi/weithgareddau, gall ystyried Tacsonomeg Bloom gyda'r gweithgareddau arall. Pe bai'r cyfle yn codi eto i ail-wneud y papur bydd cael adolygiad llenyddiaeth mwy yn ddefnyddiol iawn. Gall mwy o fanylder cael eu hystyried i'r pynciau a nodir uchod. Gall hefyd wedi edrych ar bynciau arall megis "pwysau gan gyfoedion" a'r effaith o hyn o fewn amser cylch.

Trwy arsylwi, mae hefyd cyfle i adfyfrio ar y profiadau ac achosion critigol.

Gan fod yr ysgol yn treialu fframwaith Donaldson 2022, gall y cynorthwydd, gall y gweithgaredd yma wedi cael eu gwneud mewn i ddilyniant o wersi/weithgareddau gan ystyried y deilliannau cyflawniad a'r camau cynnydd. Gall hefyd addasu'r dasg neu eu hail-wneud yn nifer o wythnosau/misoedd i weld os yw'r plant wedi gwneud cynnydd yn eu dealltwriaeth emosiynol gan ddilyn Iechyd a Lles.

Gall y cynorthwydd hefyd wedi dilyn camau gweithredu sbesiffig ar gyfer trafod emosiynau yn ystod amser cylch. Mae Mosely yn esbonio ei model “Amser Cylch o Ansawdd” (Mosely, et al., 2009). Canolbwyntiwyd y model yma ar gadw strwythur, ffocysu ar ddatrysiad a sicrhau amrywiaeth (Mosely, et al., 2009). Mae hefyd pum cam weithred gan Mosely ar gyfer pob sesiwn amser cylch; sef:

- 1) Cwrdd â chwarae gem er mwyn sicrhau mae pawb yn gyfforddus;
- 2) Cynhesu fyny, gweithgaredd i dorri'r tawelwch a sicrhau un waith eto bod pawb yn gyfforddus;
- 3) Agor fyny, dyma yw'r proses o archwilio'r problemau posib;
- 4) Codi calon, dyma yw'r proses o ddathlu'r positif;
- 5) Tawelu, dyma'r proses o bontio ar gyfer y sesiwn nesaf. (Mosely, et al., 2009)

Trwy gadw strwythur i bob sesiwn, bydd y plant yn ymwybodol o beth i ddisgwyl a beth ddisgwylir ohonynt. Gall hyn helpu i'r sesiynau llifo yn well a chadw ymrwymiad. Ond, mae hefyd rhaid ystyried oedran y plant yn y gweithgaredd, os ydynt yn rhy ifanc, mae gormodedd o gamau i gyflawni i'r rhai gyda chyfnod canolbwyntio isel.

7. Casgliad

Ar lefel sylfaenol, darganfyddais beth yw digwyddiadau critigol. Fe wnaeth hyn hefyd fy ngalluogi i sylweddoli bod rheoli digwyddiadau o bwysigrwydd enfawr. Dysgais hefyd gellir colli digwyddiadau critigol yn hawdd, fel eglura Tripp.

Darganfyddais hefyd fod amser cylch o bwysigrwydd enfawr i blant a'u datblygiad. Er bod rhywfaint o'r ymchwil a'r adolygiad llenyddiaeth a nodwyd ychydig yn hŷn na'r hyn a oedd yn ddewisol, roedd y wybodaeth oddi mewn yn dal i fod yn werthfawr.

Dysgais hefyd gall gweithgaredd byr a syml greu sgwrs effeithiol gyda phlant. Bu'r sgwrsiau yma yn galluogi'r cynorthwydd son am bynciau caled ac aeddfed yn ddull addas i blant oedran blwyddyn un. Bu'r sgwrsiau yn caniatáu iddynt archwilio emosiynau yn ddyfnach gydag oedolyn sy'n bresennol. Dangoswyd y pwysigrwydd o gael oedolyn yn bresennol oherwydd gall emosiynau/mynegiant wynebol dal achosi problemau i rai.

7.1 Cyfyngiadau'r Gwaith

Wrth gwrs gyda phob darn o waith bu cyfyngiadau megis. Mae rhaid adnabod faint o ddarllen a ddylai wedi cael eu gwneud cyn cymryd rhan yn arsylwadau. Ond, os oedd peilot wedi eu cynnal bu'r problemau yma wedi eu darganfod cyn arsylwadau penderfynol. Nad oedd modelu arsylwi wedi cael eu defnyddio a dylai wedi ystyried y rhain un waith eto cyn yr arsylwadau penderfynol.

8. Rhestr Cyfeirnod

Australian Collaborative Education Network and Authors, 2012. *Proceedings of the Australian Collaborative Education Network (ACEN) National Conference*, Springvale South: Australian Collaborative Education Network.

Ahner, L., Milatz, A., Kappler, G. & Schneiderwind, J., 2013. The Impact of Teacher–Child Relationships on Child Cognitive. *Developmental Psychology*, 49(3), pp. 554-567.

Bell, J. & Waters, S., 2014. *Doing Your Research Project*, s.l.: McGraw Hill Book Company.

Birch, S. H. & Ladd, G. W., 1998. Children's Interpersonal Behaviors and the Teacher-Child Relationship. *Developmental Psychology*, 34(5), pp. 934-946.

Black, P. & Wiliam, D., 1998. *Inside the black box*, London: GL Assessment.

Bruce, C., 2010. Why Emotional Literacy is Good for your School; Implications for Practice. In: *Emotional Literacy in the Early Years*. London: SAGE publications, pp. xii-7, 82-93.

Crow, G. & Wiles, R., 2008. *Managing anonymity and confidentiality in social research: the case of visual data in Community research*, s.l.: Economic and Social Research Council National Centre for Research Methods.

Didau, D., Bjork, R. & Wiliam, D., 2016. *What if everything you knew about education was wrong?*. Carmarthen: Crown House Publishing.

Donaldson, G., 2015. *Dyfofol Llwyddiannus*, s.l.: s.n.

Donaldson, G., 2019. *Canllaw i Gwricwlwm i Gymru 2022*, s.l.: Llywodraeth Cymru.

Estyn, 2014. *Arsylwi ystafelloedd dosbarth yn effeithiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd*, s.l.: Estyn.

Estyn, 2018. *Adroddiad ar [REDACTED]*, s.l.: Estyn.

Fletcher-Wood, H., 2016. What am I looking for in this observation?. In: *Ticked Off*. Carmarthen: Crown House publishing, pp. 125-126.

Harrison, C. & Howard, S., 2009. *Inside the Primary Black Box*, London: GL Assessment.

Kozulin, A., Gindis, B., Ageyev, V. S. & Miller, S. M., 2003. *Vygotsky's Educational Theory in Cultural Context*. s.l.:Cambridge .

Llywodraeth Cymru, 2018. [REDACTED], s.l.: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2018. *Fy Ysgol Leol*. [Online] Available at: [REDACTED] [Accessed 21 10 2019].

Mosely, J., Cefai, C. & Cooper, P., 2009. *Promoting Emotional Education*. London: Jessica Kingsley Publishers.

Ndebele, C., 2014. Using Evaluation as Action Research: Reflections on Teaching Practice Using Brookfield's Four Lenses Model. *The Anthropologist*, 17(2), pp. 533-541.

Rucinsky, C., Brown, J. & Downer, J., 2018. Teacher-child relationships, classroom climate, and children's social-emotional and academic development.. *Journal of Educational Psychology*, 110(7), pp. 992-1004.

Tripp, D., 2006. Introduction; Creation of critical incidents; analysis of critical incidents; Ideology critique in the analysis of critical incidents; . In: *Critical Incidents in Teaching*. Abingdon: Routledge, pp. 8-152.

William, D. & Leahy, S., 2015. *Embedding formative assessment*. kindle ed. West Palm Beach: Learning Sciences International.

9. Atodiadau

Nodau Arsylwi / Maes 1



(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad:

Manylion y wers:

Dosbarth o 28 o blant blwyddyn un, bu mwy o ferched na bechgyn yn y dosbarth. Does dim anghenion dysgu ychwanegol yn y dosbarth.

Roedd y plant yn dysgu i ddarllen emosiynau trwy fynegiannau wynebol a sefyllfaoedd gwahanol. Roedd hyn yn weithgaredd weddol fyr, tua phump i saith munud o hyd tu fas o'r dosbarth yng ngrwpiau bach.

Diwylliant ar lawr dosbarth:

(Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?)

Mi oedd pob un yn edrych fel oeddynt yn mwynhau'r cyfle i drafod y darluniau a'r emosiynau a bydden nhw'n teimlo yn sefyllfaoedd tebyg. Bu pob un o'r grŵp yn rhannu ac nad oedd unrhyw un yn dawel am amser sylweddol. Aeth y grŵp i ffwrdd o'r topig tair gwaith yn ystod y gweithgaredd ond daeth y cynorthwydd a nhw yn ôl i'r pwnc perthnasol.

Amcanion:

(Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas?)

Mi oedd yr amcan yn glir: i gael y plant i drafod a cheisio deall emosiynau a mynegiannau wynebol yn well gan dalu sylw i'r sefyllfa. Bu'r gweithgaredd yma yn clymu yn dda i'r sesiwn "Bore da" (gwelir BWA a Nodau Arsylwi 4).

Cyfarwyddyd:

(Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?)

Nad oedd unrhyw amcanion ddysgu wedi eu rhannu gyda'r plant ond cymerodd pob un rhan yn y gweithgaredd a buaswn yn mwynhau'r trafodaethau.

Mynediad a her:

(Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?)

Dilynodd pob un plentyn y wers yn glir. Bu rhai wedi colli sylw ar adegau ond daeth y cynorthwydd a'r ffocws yn ôl yn effeithiol heb adael i'r plant teimlo fel nad oedd eu barnau yn bwysig. Ar un adeg, roedd rhaid i'r cynorthwydd cynnig cymorth gydag un llun gan fod y grŵp i gyd yn weld yn anodd felly caiff pob un eu herio.

Asesu:

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth y myfyrwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl y wers? Sut a ddefnyddir hyn wrth addysgu?

Cyn dechrau'r gweithgaredd, gofynnwyd y cynorthwydd sut oedd pawb yn teimlo. Dechreuodd hwn sgwrs am emosiynau a hyrwyddo asesu ffurfiannol. Yr holl ffordd trwy'r gweithgaredd, bu'r plant yn cael eu hasesu'n ffurfiannol gan fod y cynorthwydd yn gwrando ac yn ysgogi gyda chwestiynau perthnasol. Bu hefyd yn asesu ar ôl gan ofyn iddynt drafod eu teimladau un waith eto.

Manyleb/Achosion Beirniadol:

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Gallwn wedi trafod y defnydd o Saesneg o fewn y sesiwn, ond, efallai doedd iaith ddim ar ffocws oherwydd bod llythrennedd emosiynol yn bwnc mor eang i blant mor ifanc.



Model Beirniadau Wedi Adfyfrio (BWA) 1

Dyddiad: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws):

Profiad	
Teimladau Beth yn eiddo'r teimladau a'r gweithgaredd?	Roddwn yn hapus iawn i gael gweld y gweithgaredd llythrennedd emosiynol tu allan i'r dosbarth.
Cofio a Deall Ynghyd chi o'r gweithgaredd a'r gweithgaredd a'r gweithgaredd? Pa elfen o'r gweithgaredd a'r gweithgaredd?	Bu'r plant yn trafod emosiynau a mynegiannau wynebol a sefyllfaoedd gyda'r cynorthwydd. Bu un bachgen yn cael trafferth wrth edrych ar ddarlun. Sylweddolodd y cynorthwydd ac felly gofynnodd hi nifer o gwestiynau er mwyn datblygu ei feddyliau a'i ddealltwriaeth.
Gwerthuso a Dadansoddi Beth ynghyd chi o'r gweithgaredd a'r gweithgaredd a'r gweithgaredd? Beth ynghyd chi o'r gweithgaredd a'r gweithgaredd?	Byddaf yn sicr yn ceisio cadw rhyw fath o wers/weithgaredd i ddatblygu emosiynau a dealltwriaeth emosiynol fy nosbarth. Nad oedd elfen siomedig i'r gweithgaredd.
Casgliadau a Chamau gweithredu Beth ynghyd chi o'r gweithgaredd a'r gweithgaredd a'r gweithgaredd? Beth ynghyd chi o'r gweithgaredd a'r gweithgaredd?	Byddaf yn ymchwilio i'r pwysigrwydd o berthnasoedd athrawon gyda phlant, llythrennedd emosiynol, y pwysigrwydd o amser cylch ac asesu ffurfiannol er mwyn gwella fy nealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd.
Y profiad newydd	

Nodau Arsylwi / Maes 2

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019 Manylion y wers: Dosbarth o 28 o blant blwyddyn un, bu mwy o ferched na bechgyn. Does dim anghenion dysgu ychwanegol yn y dosbarth. Amser cylch peth cyntaf y bore. Amser iddynt gwrdd, gwylio teledu nes bod pob un o'r plant mewn, gwneud y gofrestr ac yna sgwrsio a gofynnwyd yr athrawes os oedd gan unrhyw un newyddion a hoffai rhannu. Ar ôl i bawb rhannu'r newyddion a hoffwn rannu, mae'r grwpiau yn cael eu rhoi ar dasg. Mae'r holl drefn yn cymryd o 20 i 40 munud.
Diwylliant ar lawr dosbarth: (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Bu rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio, gwranddo a chymryd rhan yn amser cylch. Ond, bu rhai hefyd wedi colli sylw o fewn y cwpl o funudau cyntaf. Dyma pryd ddigwyddodd y digwyddiad beirniadol lle bod un ferch wedi colli'i sylw a oedd rhaid i'r athrawes ei atgoffa gan ddefnyddio iaith gorfforol.
Amcanion: (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas?) Soniwyd am sut oedd pob un yn teimlo ac amser i rannu eu meddyliau. Wrth rannu sut oeddynt yn teimlo (wrth wneud y gofrestr), mae'n galluogi'r athrawes i weld os yw unrhyw resymau penodol o pam efallai bydd rhai yn llai tebygol o wrando, er enghraifft, yn gysglyd iawn.
Cyfarwyddyd: (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Maent yn ymwybodol o'i drefn arferol ac mae'r iaith Gymraeg yn cael ei phwysleisio ac mae unrhyw ddefnydd da o'r Gymraeg yn cael eu hannog a gwobrwyo.
Mynediad a her: (Ydy pob myfyrwyr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwyr ei herio?) Gwthiodd yr athrawes Gymraeg yn wahanol gyda rai o'r plant. Gyda rhai, oedd hi'n hapus gyda defnydd sylfaenol iawn o Gymraeg ond gydag eraill, oedd hi'n cywiro'r iaith i wneud brawddegau llawn o Gymraeg <u>yn lle cymysg o Saesneg a Chymraeg</u>.
Asesu: Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth y myfyrwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl y wers? Sut a ddefnyddir hyn wrth addysgu? Defnyddiwyd yr athrawes y seren, haul a cwmwl* i asesu ble oedd y plant i gyd ac wrth i'r sesiwn parhau bu'n denu sylw'r plant i'r siart er mwyn ysgogi i ymddwyn a ceisio'n galed wrth siarad Gymraeg.
Manyleb/Achosion Beirniadol:

Model Beirniadau Wedi Adfyfyrio (BWA) 2

Dyddiad: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Iaith Gorfforol

Profiad	
Teimladau Beth ~~yn eich teimladau a hebolyd y profiad?~~	Roeddwn i'n hapus iawn i weld sut oedd yr athrawes wedi ymdopi gyda phlant yn gallu gwrandao a symud o gwmpas y dosbarth.
Cofio a Deall ~~Ughych chi oedoch chi aros dda i'r profiad a oedd yn eiddo?~~ ~~Pa elfennau o'r profiad oedd yn eiddo?~~	Oherwydd mae'r grŵp yn cwrdd cymaint ar y carped, mae pob un plentyn gyda lle sbesiffig i eistedd. Yn ystod amser cylch yn y bore, symudodd un ferch o le dylai wedi bod yn eistedd. Tynnodd hyn sylw'r athrawes a ddefnyddiodd iaith gorfforol a bys yn pwyntio i ddangos i'r ferch symud yn ôl. Symudodd y ferch yn gyflym. Un waith iddi symud yn ôl i'w lle, wnaeth yr athrawes diolch i'r ferch ond atgoffodd hi os oedd yn symud eto, bydd hi'n symud i lawr i'r cwmwl*. Ond, symudodd y ferch eto ar ôl i'r athrawes ei rhybuddio ac nad oedd yr athrawes wedi gweithredu ar ei addewid.
Gwerthuso a Dadansoddi Beth ~~oeddych chi'n adolygu i'r profiad a oedd yn eiddo?~~ ~~ac oedoch chi'n adolygu i'r profiad a oedd yn eiddo?~~ Beth ~~oeddych chi'n adolygu i'r profiad a oedd yn eiddo?~~	Roedd weld iaith gorfforol yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol yn hynod o ddiddorol gan nad oedd llais wedi ei godi unwaith a gwrandawodd y ferch lle bod ddim geiriau yn cael ei ddefnyddio. Yn anffodus, nad oedd yr athrawes wedi dilyn drwodd gyda'r ddisgyblaeth. Ond, gall elfennau allanol effeithio ar hyn a does dim digon o wybodaeth gen i ar y ferch er mwyn trafod yn bellach.
Casgliadau a Champau gweithredu Beth ~~yn eich achosau a oedd yn eiddo?~~ ~~a oeddych chi'n adolygu i'r profiad a oedd yn eiddo?~~ Beth ~~oeddech chi'n adolygu i'r profiad a oedd yn eiddo?~~	Byddaf yn sicrhau i ddilyn drwodd gyda fy nosbarth i os oedd yn bosib. Ond, bydd rhaid bod yn ofalus am elfennau allanol gan fod hi'n bosib ni fydd gen i'r holl wybodaeth berthnasol.
Y profiad newydd	

*Mae gan bob plentyn yn y dosbarth peg gyda'u henwai arni. Mae tri llun ar y wal, mae pob un peg yn ddechrau ar lun yr haul pob dydd. Os ydynt yn bihafio neu'n ymddwyn yn ffordd arbennig, symudwyd y peg i fyny i'r seren aur. Os yw'r plentyn yn camymddwyn neu'n gwrthod gwrandao, symudwyd y peg i lawr i'r cwmwl. Dyma yw system disgyblaeth blwyddyn un.

Nodau Arsylwi / Maes 3

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019 Manylion y wers: Dosbarth o 28 o blant blwyddyn un, bu mwy o ferched na bechgyn. Does dim anghenion dysgu ychwanegol yn y dosbarth. Ar gyfer y dasg yma, rhannwyd y plant mewn i'w grwpiau yn ôl gallu i sicrhau bod y cymorth angenrheidiol ar gael i bob un plentyn. Mae'r plant yn ail-ddrafftio brawddegau am ddinosor ag ysgrifennwyd yn gynharach yn yr wythnos ar liniadur; rhywbeth nad ydynt wedi gwneud llawer ohoni eto. Mi oedd gwahaniaethu hefyd wedi cymryd lle; cafwyd grwpiau wahanol frawddegau gwahanol i deipio o anawsterau gwahanol.
Diwylliant ar lawr dosbarth: (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mi oedd pob un o'r plant ar dasg ac yn edrych fel oedd yn mwynhau. Cafodd rhai trafferth a dywed "My computer doesn't have 'm'", ond, ar ôl i gymorth cael eu rhoi, oeddynt yn ôl ar dasg yn gyflym ac yn mwynhau eu hun un waith eto.
Amcanion: (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas?) Bu'r athrawes yn ceisio gwella rhuglder y dosbarth ar liniaduron; gan fod pwyslais sylweddol ar gymhwysedd digidol a fel arfer canolbwyntiwyd ar iPads yn fwy. Maent hefyd yn gwella iaith y plant gan eu fod yn ail-ddrafftio gwaith gyda chymau sillafu wedi cywiro.
Cyfarwyddyd: (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Bu'r rhan fwyaf ohonynt yn glir o beth oedd rhaid iddynt wneud gan fod yr athrawes wedi rhoi eglurhad clir yn ystod amser cylch, ond, mi oedd y grwpiau is yn ffeindio'n galed i ganolbwyntio am ddigon o amser i ysgrifennu eu brawddeg.
Mynediad a her: (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?) Roedd pob plentyn wedi dilyn y gweithgaredd, hyd yn oed os collon nhw ffocws am ychydig. Bu brawddegau wedi gwahaniaethu er mwyn teipio ac felly cafodd pob un yr her berthnasol iddyn nhw.
Asesu: Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth y myfyrwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl y wers? Sut a ddefnyddir hyn wrth addysgu? Aseswyd yr athrawes y plant cyn gwneud y dasg gan farcio eu hysgrifennu a chywiro unrhyw gam sillafu yn eu llyfrau. Yn ystod y wers wnaeth yr athrawes y penderfyniad i wahaniaethu oherwydd oedd y brawddegau gwreiddiol yn herio'r grwpiau top a welodd hi fod hyn allan o gyrhaeddiad y grwpiau is. Bu hefyd yn marcio'r gwaith er mwyn gweld os oeddynt wedi deall ail-ddrafftio a ddeall gwella sillafu.
Manyleb/Achosion Beirniadol: Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Model Beirniadau Wedi Adfyfrio (BWA) 3

Dyddiad: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Defnydd o liniaduron

Profiad	
<u>Teimladau</u> Beth wa eich teimladau wrth i'ch profiad?	Diddorol i weld sut oedd plant ifanc yn defnyddio gliwiadur a sut oeddynt yn cael ei chyflwyno i feddalwedd newydd a sut i ddefnyddio botwm "bwllch" a sut bu'r eglurhad yn cael eu rhoi yn ffordd fwy cyfeillgar i blant, er enghraifft: "Dyma yw'r bwllch bys", hynny yw'r botwm "bwllch".
<u>Cofio a Deall</u> Yn ôl chi, o'r amodau a'r ystyriaethau aeth i'r ddod? Pa effeithiau o'r profiad oedd i'r plant?	Roedd y plant wrth eu boddau yn "chwarae" wrth deipio ar y gliwiaduron ynglŷn â'u ddinosoriaid. Roeddynt yn gyffrous iawn i weithio ar liniadur a pan oedd cymorth yn cael ei chynnig oherwydd eu bod yn cael trafferth yn dod o hyd i fotymau sbesiffig, dwedodd y plant "We don't want any help!" Ond, lle bod rhai o'r plant angen cymorth i ddod o hyd i'r llythyren "m", yn lle helpu'r plant ffeindio'r botwm yn fwy annibynnol, dangosodd yr athrawes ble oedd y botwm yn syth.
<u>Gwerthuso a Dadansoddi</u> Beth foddach chi i'r plant i'w helpu i ddeall ac aeth i'r plant i'w helpu i ddeall? Beth oedd i'r plant i'w helpu i ddeall?	Byddaf yn sicrhau defnyddio termau sy'n hygyrch i blant, megis "bwllch bys". Byddaf hefyd yn sicrhau fy mod yn eistedd gyda'r plant fel gwnaeth yr athrawes er mwyn sicrhau bod y plant yn aros ar dasg. Mae'n bosib fod cyfyngiadau amser ar yr athrawes i sicrhau bod y plant yn gorffen y gwaith ac felly gall hyn wedi ei effeithio.
<u>Casgliadau a chamau gweithredu</u> Beth wa eich aeth i'r plant i'w helpu i ddeall a gwyboda? Beth oedd i'r plant i'w helpu i ddeall?	Byddaf yn ceisio cael y plant i ddod o hyd i'r botymau ar eu hun er mwyn helpu nhw dysgu sut ddefnyddio gliwiadur, ond, mae hefyd rhaid ystyried cyfyngiadau amser.
Y profiad newydd	

Nodau Arsylwi / Maes 4

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: Dosbarth o 28 o blant blwyddyn un, bu mwy o ferched na bechgyn yn y dosbarth. Does dim anghenion dysgu ychwanegol yn y dosbarth. Mi oedd yn amser cylch peth cyntaf yn y bore. Wrth gwblhau'r gofrestr maent yn datblygu sgiliau a llythrennedd emosiynol y pant. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle i'r athrawes a'r plant i sgwrsio lle bod ddim ffocws ar waith.
Diwylliant ar lawr dosbarth: (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mae'n amlwg bod pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r darn yma o'u bore ac yn mwynhau gwrandao ar blant arall. Mae rhai yn cyffroi wrth glywed pam fod eraill yn hapus.
Amcanion: (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas?) Mae'r plant yn datblygu eu llythrennedd emosiynol pob bore. Mae'r gweithgaredd yn hyrwyddo'r athrawes i fod yn ymwybodol o sut mae bron pob un yn teimlo ac felly mae'n fwy ymwybodol os oes unrhyw broblemau yn godi trwy'r ddiwrnod.
Cyfarwyddyd: (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Mae'r plant yn ymwybodol o'r disgwyliadau ieithyddol ac mae rhai yn cael eu gwthio'n bellach nag eraill. Maent hefyd yn ymwybodol o'r ffaith does dim rhaid iddynt rannu eu hemosiynau os na hoffant nhw.
Mynediad a her: (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?) Caiff y plant eu herio wrth siarad Cymraeg; bu'r athrawes yn cywiro rhai ardaloedd o iaith mwy nag eraill gyda rai o blant. Mae gwahaniaethu clir yn digwydd yn ystod y gweithgaredd felly cafwyd pob un eu herio.
Asesu: Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth y myfyrwyr cyn, yn ystod, ac ar ôl y wers? Sut a ddefnyddir hyn wrth addysgu? Roddwn yn weithgaredd cyntaf y bore yw hyn ac felly nad oes cyfle i'r athrawes asesu'r plant cyn. Ond, yn ystod, mae'n asesu'n emosiynol a hefyd yn asesu eu hiaith trwy drafod gyda nhw. Ar ôl hyn, mae'n bosib eu bod yn drilio gwallau cyffredin gyda'r grŵp. Gwelais enghraifft o hyn lle bod nifer o blant yn ddweud "Oes mae gyda ti...".
Manyleb/Achosion Beirniadol: Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Model Beirniadau Wedi Adfyfrio (BWA) 4

Dyddiad: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws): Sesiwn "Bore da"

Profiad	
Teimladau Beth wa i'ch teimladau wrth i'ch y profiad?	Roeddwn i'n hapus iawn i weld bod llythrennedd emosiynol yn cael eu datblygu a meithrin pob ddiwrnod wrth wneud sesiwn "bore da" gyda'r gofrestr. Edrychodd fel petai'r plant yn mwynhau sôn am eu hemosiynau a'u bod yn cymryd diddordeb yn beth mae'r plant arall yn teimlo.
Cofio a Deall Uchaf chi o'r awydd i'ch y profiad a'u deall a'u deall? Pa elfennau o'r profiad a'u deall a'u deall?	Wrth wneud y gofrestr, bu'r athrawes yn gofyn i bob plentyn sut oeddynt yn teimlo. Pan atebon nhw, gofynnwyd "pam?" gan roi cyfle i'r plant trafod ei emosiynau. Bu hefyd yn annog y plant i ofyn yn ôl iddi hi er mwyn datblygu empathi.
Gwerthuso a Dadansoddi Beth foddych chi i'ch awydd i'ch y profiad a'u deall a'u deall? Beth oedd i'ch awydd i'ch y profiad a'u deall a'u deall?	Datblygodd yr athrawes deallusrwydd y plant gan eu bod yn gwrandao ar bob un arall ac yn edrych fel maent yn mwynhau'r proses yma. Doedd rhai o'r plant ddim eisiau ateb y cwestiwn "sut wyt ti'n teimlo heddiw?" a wnaeth yr athrawes ddim gwrthio hyn yn bellach gan ddangos parch tuag at y plant.
Casgliadau a Charnau gweithredu Beth wa i'ch awydd i'ch y profiad a'u deall a'u deall? Beth oedd i'ch awydd i'ch y profiad a'u deall a'u deall?	Byddaf yn sicr yn ceisio datblygu fy nealltwriaeth o sut i gael plant i drafod a deall emosiynau yn enwedig gyda'r fframwaith newydd.
Y profiad newydd	